



Adroddiad Cyfarfod

04:03:22

Bore Coffi

Roedd cyfarfod o'r gangen yn wahanol y mis yma gan i ni gynnal bore coffi oedd yn agored i holl bentrefwyr Bethel. Cynhaliwyd y bore coffi yn y Neuadd Bentref o 10.00 tan 12.00 fore Gwener y 4ydd o Fawrth. Bwriad y bore coffi oedd rhoi cyfle i'r pentrefwyr o bob oed ddechrau ail gymdeithasu wedi cyfnod hir y Covid. Derbyniodd y gangen grantiau gan Gyngor Gwynedd a Chronfa'r Loteri Genedlaethol at gostau cynnal y digwyddiad.

Braf iawn oedd gweld y neuadd dan ei sang er gwaethaf y glaw. Manteisiodd rhai ar y cynnig am gludiant i'r neuadd, diolch i Gwyneth am fod mor barod i'w cario.

Braf iawn oedd gweld y pleser amlwg wrth i bobl weld ei gilydd am y tro cyntaf ers misoedd a rhai yn cyfadde eu bod yn nerfus o ddod ond yn teimlo flach eu bod wedi mentro. Cafodd Gwyneth Williams a Mabel Jones dwy aelod gwerthfwr o'r gangen groeso cynnes iawn gan bawb, y ddwy wedi methu dod atom i'r gangen eleni oherwydd rhesymau meddygol ond y ddwy yn benderfynol o ddod i weld pawb.

Uchafbwynt y bore oedd eitemau gan blant yr ysgol, perfformiodd pob dosbarth yn eu tro i ganu, llefaru neu ddawnsio gwerin. Addurnwyd y neuadd hefyd gan luniau'r plant i ddatlu dydd Gwyl Dewi. Diolchwyd i'r Pennaeth Mr Gwion Owen a'r staff gan y Llywydd Anne Elis am eu parodrwyd i gymryd rhan yn y gweithgareddau. Roedd y plant yn amlwg wedi mwynhau'r profiad o gofio nad oedd rhai ohonynt wedi cael cyfle i berfformio'n gyhoeddus o'r blaen oherwydd cyfyngiadau Covid.

Roedd stondinau yng nghefn y neuadd hefyd, stodin gwaith gwnio a gweu gan Meira Evans, aelod o'r gangen. Roedd Meira'n bwriadu rhoi holl elw'r gwerthiant tuag at gronfa Wcráin.

Daeth Rosie a Carol o'r uned tecstiliau yn y Bedol i godi ymwybyddieth o beth sy'n digwydd yno.

Diolch yn fawr i Sion ac Elis am helpu i gael y neuadd yn barod ar y nos lau, roedd yn help mawr, ac i Sion, Gwyn a Marcus am helpu i gadw'r byrddau ar cadeiriau ar y ddiwedd.

Gweithiodd aelodau'r pwyllgor fel tim arbennig yn ystod y bore rhai yn y gegin, eraill yn gweini ,eraill yn gwerthu raffl a Jen yn tynnu lluniau drwy'r bore. Mae'r lluniau i'w gweld ar wefan Merched y Wawr Bethel.

Diolch i'r Swyddogion , Anne, Liz a Gwyneth am drefnu'r bore mor drylwyr ac i holl aelodau 'r gangen am eu cefnogaeth.

Diolchodd Marcus i'r gangen am eu gwaith caled a'u ymroddiad i holl weithgareddau'r pentref dros y blynyddoedd.

Fel rhan o'r grantiau a dderbynwyd bydd taith diwrnod yn cael ei gynnal ar y 8fed o Fehefin gan ymweld a Port Sunlight, hanner awr ar y fferi ar y Mersi ac yna wedi glanio yn Lerpwl cyfle i fynd i'r amgueddfeydd ac orielau yn Albert Dock neu groesi'r ffordd i'r dref. Bydd manylion am y trip a chyfle i roi enw yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

Mis nesaf cynhelir cyfarfod o'r gangen ar y 13eg Ebrill yn y neuadd am 7.30 pryd cawn sesiwn o ioga efo Wendy Ostler.